

Aseiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Mai 2022

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Contents

Cyflwyniad	3
Cefndir	4
Ysgol Plas Brondyffryn.....	5
Manylion yr ysgol	5
Nifer y disgyblion.....	5
Rhuglder disgyblion yr ysgol	8
Manylion corff llywodraethu.....	8
Ystyriaethau ychwanegol a nodir yn y Cod.....	10
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb/ Asesiad o'r Effaith ar Les.....	11
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	11
Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned	18
Atodiad A	25

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Brondyffryn o 116 i 220. Bydd yr ysgol yn symud i gyfleuster newydd sbon pwrpasol yn nhref Dinbych er mwyn lletya'r cynnydd.

Os fydd yr Awdurdod Lleol yn dymuno gweithredu'r Cynnig yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol, a bydd gweithrediaeth o'r fath yn destun Asesiadau o'r Effaith ar Gymuned ac Iaith.

Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Cod Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cymru 2013 (diwygiwyd 2018) yn gofyn am gynigydd i gynnal Assesiad o'r Effaith ar Gymuned a'r Gymraeg wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgol.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgol yn pennu bod angen i gynigwyr ystyried yr effaith y gall y cynnig ei gael ar deuluoedd lleol a'r gymuned leol, drwy baratoi asesiad o'r effaith ar Gymuned a'r effaith ar yr iaith Gymraeg drwy baratoi asesiad o'r effaith ar y Gymraeg os yw unrhyw ysgol a effeithir yn darparu addysg drwy'r Gymraeg.

Cyd-destun Lleol

Mae CSDd wedi ymrwymo i foderneiddio addysg yn Sir Ddinbych er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

Mae CSDd yn cydnabod pwysigrwydd o gael adeiladau modern, addas i'r diben sy'n bodloni anghenion addysg modern. Mae angen i ysgolion ddarparu'r profiad dysgu gorau bosibl i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

Defnydd Cymunedol o Ysgolion

Mae gan CSDd ymrwymiad i ysgolion bro, felly byddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar gymuned wrth ystyried newidiadau i drefniadaeth ysgol.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Hyrwyddo Dwyieithrwydd

Mae CSDd yn cydnabod fod dwyieithrwydd yn bwysig yng Nghymru yn y 21^{ain} ganrif. Dyhead CSDd yw bod holl blant a phobl ifanc yn gadael addysg llawn amser yn alluog a hyderus yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r dyhead yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.'

Cefndir

Mae CSDd wedi ymrwmo i ddarparu addysg o'r radd flaenaf i holl blant a phobl ifanc yn y sir. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r cyngor wedi cytuno fod moderneiddio'r ddarpariaeth addysg yn flaenoriaeth gan ei fod yn cydnabod pwysigrwydd o gael adeiladau ysgol, amgylcheddau ac adnoddau dysgu sy'n bodloni anghenion Cymru yn yr 21ain ganrif.

Roedd angen i'r ddarpariaeth addysg yn y sir newid gan nad oedd gwelliannau mewn addysg yn gynaliadwy heb newidiadau i'r ffordd roedd addysg yn cael ei ddarparu.

Mae ystyriaeth wedi cael ei roi i'r effaith bosibl ar y Gymraeg ac ar gymunedau lleol o ganlyniad i'r cynnig.

Ffynonellau Gwybodaeth

Mae'r ffynonellau gwybodaeth canlynol wedi cael eu defnyddio ar gyfer dibenion y ddogfen hon:

- Holiadur Asesiad o Effaith a gyflawnwyd gan Bennaeth Ysgol Plas Brondyffryn
- Data CYBLD 2021
- Data ystadegol a gedwir gan Gyngor Sir Ddinbych;
- Gwybodaeth Cyfrifiad 2011
- Cynllun drafft Cymraeg mewn Addysg 2022-2032.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Ysgol Plas Brondyffryn

Manylion yr ysgol

Enw'r Ysgol	Ysgol Plas Brondyffryn
Lleoliad yr Ysgol	4 lleoliad yn Ninbych: Safle Cynradd - LL16 3DP Safle Uwchradd - LL16 3DR Tŷ'r Ysgol - LL16 4ST Preswyl - Gerddi Glasfryn - LL16 4ST
Ystod Oedran	3-19
Categori Ysgol - Cymunedol, a Gynorthwyir yn Wirfoddol, a Reolir yn Wirfoddol, Arbennig	Ysgol Arbennig
Categori Cyfrwng Iaith	Cyfrwng Saesneg

Nifer y disgyblion

Ym Medi 2021 roedd 136 o ddisgyblion yn yr ysgol. Dangosir niferoedd y disgyblion dros y blynyddoedd diweddar isod:

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Blwyddyn	Ion 16	Ion 17	Ion 18	Ion 19	Ion 20	Ion 21
Niferoedd disgyblion	124	128	140	133	137	137

Mae Ysgol Plas Brondyffryn wedi'i leoli ar draws Dinbych. 3 ward yn Ninbych - Dinbych Canolog, Dinbych Isaf a Dinbych Uchaf. Bydd y safle ysgol newydd o fewn ward Dinbych Isaf.


Mae Cyngor Tref Dinbych hefyd yn gorchuddio'r ardal hon.

Sylwch fod disgyblion yn mynychu ysgolion arbennig ar draws y Sir ac o awdurdodau gerllaw.

Mae'r map isod yn dangos lledaeniad o le mae disgyblion yn dod - ar gyfer dibenion yr ymarfer hwn, fe ddefnyddiom y safle Lôn Parc yn Ninbych:

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Data disgyblion o Ion 2022:



Pellter	Nifer y disgyblion	% poblogaeth yr ysgol
O dan 1 filltir	6	4.5
1-5 milltir	10	7.6
5-10 milltir	32	24.2

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

10-20 milltir	69	52.3
Dros 20 milltir	15	11.4
Cyfanswm	132	100

Rhuglder disgyblion yr ysgol

	Llawn amser
Cyfanswm y Disgyblion wedi'u Cofrestru:	133
Nifer y Disgyblion o gartrefi Cymraeg:	2
Nifer y Disgyblion o gartrefi Saesneg:	118
Nifer y disgyblion o gartrefi dwyieithog (Rhieni Cymraeg a Saesneg):	13

Data o Rhag 2021

Manylion corff llywodraethu

Nifer y Rhieni-Lywodraethwyr:	5
--------------------------------------	---

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Nifer y Llywodraethwyr Cymunedol*:	3
Cyfanswm y Llywodraethwyr:	15
Nifer y Llywodraethwyr Cymraeg:	4
Iaith y nodir y cofnodion	Saesneg

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon o'r enw Ffrindiau Plas Brondyffryn. Maent yn cwrdd unwaith bob hanner tymor, a mwy os oes angen. Cynhelir y cyfarfodydd yn Saesneg.

Darpariaeth Ychwanegol

Y ddarpariaeth ysgol ychwanegol a gynigir tu allan i oriau ysgol yn ddyddiol yw clwb brechwast, yn y safleoedd cynradd ac uwchradd. Nid oes clybiau ar ôl ysgol ar hyn o bryd. Mae Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Haf sy'n cael ei rhedeg gan yr ysgol.

Darpariaeth Gofal Plant / Cyn Ysgol

Nid oes gan yr ysgol ddarpariaeth meithrin.

Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r cyfleusterau cymunedol canlynol ar gael yn Ninbych tu allan i'r ysgol:

- Neuadd y Dref Dinbych
- Canolfan Gymunedol Eirianfa
- Clwb Rygbi Dinbych
- Clwb Pêl-droed Dinbych

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

- Canolfan Hamdden Dinbych
- Clwb Bowlio Dinbych
- Parc Sglefrio Dinbych
- Clwb Tennis Dinbych
- Clwb Criced Dinbych

Gweithgareddau Cymunedol - adeilad yr ysgol

Nid oes unrhyw weithgareddau cymunedol yn digwydd yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Gweithgareddau Cymunedol – arall

Mae nifer fawr o gyfleusterau cymunedol yn nhref Dinbych, ac mae amrywiaeth o grwpiau yn eu defnyddio ar gyfer ystod o weithgareddau cymunedol.

Ystyriaethau ychwanegol a nodir yn y Cod

Mae materion penodol a nodir yn y cod a ddylai'r cynigydd ystyried wrth asesu effaith y cynnig ar y gymuned a'r iaith. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt ond yn gymwys os fydd ysgol yn cau a bod rhaid i'w ddisgyblion ddibynnu ar ddarpariaeth amgen presennol. Nid yw'r berthnasol ar gyfer dibenion y ddogfen hon i ystyried:

- a. os allai cyfleusterau eraill yn gymuned ehangach neu leol gael eu gwella mewn digwyddiad o gau;
- b. gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen;
- c. gwybodaeth am y pellter ac amser teithio wrth fynychu ysgol amgen;
- ch. sut all ymgysylltiad rhieni a disgyblion gyda'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y mae'n ei gynnig, gael ei gefnogi;
- d. gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach y bydd y newidiadau yn eu cael ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus;

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

- dd. gwybodaeth ar faterion diogelwch y gymuned ehangach;
- e. gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw rai amgen;
- f. gwybodaeth am y gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol amgen;
- ff. os yw'n briodol i ddarparu cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol mewn unrhyw ysgol amgen er mwyn sicrhau safonau'r Gymraeg ymhellach;
a
- g. sut all ymgysylltiad rhieni a disgyblion gydag unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliannau Cymraeg penodol mae'n ei gynnig, gael eu cefnogi.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb/ Asesiad o'r Effaith ar Les

Fel Cyngor rydym bellach yn cyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gynigion. Mae asesiadau o effaith ar les yn asesiadau effaith integredig sy'n asesu'r effaith posibl y gallai cynnig ei gael ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd. Mae'r asesiad yn ystyried yr effaith ar: gydraddoldeb, grwpiau diamddiffyn, yr economi, yr amgylchedd, iechyd, y Gymraeg a diwylliant Cymru, cydlyniant cymunedol ac ar faterion byd-eang.

Mae'r asesiad yn edrych ar gynaliadwyedd y cynnig a'r canlyniadau ac effeithiau tebygol ar y cynnig. Defnyddir yr asesiad o effaith mwy nac unwaith, trwy gydol datblygu cynigion a chaiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus.

Gweler Atodiad A ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnig hwn.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Pwrpas yr asesiad o effaith yw ystyried effaith posibl y cynnig ar y Gymraeg.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Data'r Cyfrifiad

Mae'r data canlynol wedi ei gymryd o Gyfrifiad 2011 ac yn darparu gwybodaeth ar y gyfran o siaradwyr Cymraeg o fewn y wardiau mae safleoedd Ysgol Plas Brondyffryn wedi'u lleoli ar hyn o bryd.

Ward	Poblogaeth	Nifer y Siaradwyr Cymraeg	Cyfran y Siaradwyr Cymraeg
Dinbych Isaf	4,561	1,777	38.9%
Dinbych Uchaf / Henllan	3,165	998	31.5%

Asesiad Risg

Er mwyn asesu'r effaith posibl ar y Gymraeg, mae ystyriaeth wedi ei roi i'r agweddau canlynol (fel y nodir yn y tabl isod):

- Iaith yr ysgol;
- Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg;
- Darpariaeth Addysg / Safonau Addysg;
- Mynediad i ddarpariaeth anstatudol;
- Mynediad i weithgareddau cyn/ar ôl ysgol;
- Y Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Meini Prawf Effaith	Sylwadau	Effaith (cadarnhaol, niwtral neu negyddol)	Mesurau i ostwng yr effeithiau negyddol	Effaith Weddilliol
Iaith yr ysgol	Mae'r ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan integredig o fywyd yr ysgol.	NIWTRAL	Amherthnasol	Amherthnasol
Mynediad i Addysg Cyfrwng Cymraeg	<p>Mae mwyafrif y disgyblion yn dod o gartrefi lle mae Saesneg yn iaith gyntaf; fodd bynnag mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos lle mae diwylliant a threftadaeth Gymreig yn cael ei gefnogi a'i ddathlu.</p> <p>Mae cyfran o'r staff yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac felly defnyddir y Gymraeg fel iaith</p>	NIWTRAL	Amherthnasol	Amherthnasol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

	<p>cyfathrebu ar draws yr ysgol.</p> <p>Mae llywodraethwyr a'r UDRh wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau Cymraeg holl staff ac yn darparu hyfforddiant i gyflawni hyn. Ni ddefnyddir y Gymraeg fel iaith cyfarwyddyd mewn unrhyw Gyfnod Allweddol na phwnc, ond mae'r ysgol yn croesawu disgyblion Cymraeg iaith gyntaf ac yn darparu'r adnoddau angenrheidiol iddynt gael mynediad at y cwricwlwm cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Ni fyddai'r cynnig yn newid y mynediad at addysg Gymraeg.</p>			
--	---	--	--	--

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

<p>Darpariaeth Addysg / Safonau Addysg</p>	<p>Bydd y cynnig yn gwella cyfleusterau'r ysgol yn ogystal â dod â'r holl staff a disgyblion i'r un safle.</p> <p>Bydd staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i letya'r cynnydd mewn capasiti pan fydd angen.</p>	<p>CADARNHAOL</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Darpariaeth Anstatudol</p>	<p>Mae llywodraethwyr a rheolwyr yr ysgol yn chwilio i godi proffil yr ysgol yn sylweddol yn y gymuned leol, a sicrhau fod y gymuned gyfan yn gallu elwa o'r cyfleusterau y bydd adeilad newydd yn ei gynnig.</p> <p>Mae cynnwys caffi cymunedol yng nghynlluniau'r adeilad newydd yn</p>	<p>CADARNHAOL</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Amherthnasol</p>

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

	<p>un esiampl fod yr ysgol wedi ymrwymo i ymestyn hyn i'r cyfleusterau chwaraeon (muga), gofodau tu mewn mawr (prif neuadd a neuadd fechan), cyfleusterau cynadledda a chyfleusterau addysgu a dysgu arbenigol.</p>			
<p>Gweithgaredd au Cyn/ Ar Ôl Ysgol</p>	<p>Bydd yr ysgol yn parhau i gynnal clwb brechwast.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd y cynnig yn gweld cynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth, a bydd yr ysgol yn gallu lletya hyn.</p>	<p>CADARNHAOL</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Amherthnasol</p>

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Y Defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau	Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol cyfrwng Saesneg, a bydd hyn yn parhau pe cymeradwyir y cynnig, ac felly bydd hyn yn cael effaith niwtral ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned.	NIWTRAL	Amherthnasol	Amherthnasol
--	---	----------------	--------------	--------------

Trosolwg - Effaith dechreuol posibl ar y Gymraeg

		Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
Effaith Gyffredinol	Cynnig Cyfredol	3	3	0
	Effaith Weddilliol	0	0	0

Crynodeb o'r Effaith Bosibl ar y Gymraeg

Dylid nodi fod ceisio canfod effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg yn dasg anodd.

Y prif agweddau cadarnhaol sy'n codi o'r effaith yw ar y ddarpariaeth addysgol. Mae darparu darpariaeth addysgol well yn cynrychioli cynnig i gryfhau addysg Gymraeg yn yr ardal ac o ganlyniad, yn cryfhau'r Gymraeg.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Casgliad: Ar y cyfan ni fyddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Pwrpas yr asesiad o effaith yw ystyried effaith posibl y cynnig ar deuluoedd a'r gymuned leol.

Er mwyn asesu'r effaith bosibl ar deuluoedd a'r gymuned leol mae ystyriaeth wedi cael ei roi i'r agweddau canlynol:

- Dynodiad yr Ysgol;
- Cysylltiadau'r ysgol i'r gymuned leol;
- Effaith ar ysgolion gerllaw;
- Effaith ar rieni a theuluoedd;
- Goblygiadau teithio ar gyfer disgyblion/rhieni;
- Effaith ar weithgareddau cymunedol;
- Effaith ar gyfleusterau cymunedol;
- Effaith ar ddemograffig cymuned

Meini Prawf Effaith	Sylwadau	Effaith (cadarnhaol, niwtral neu negyddol)	Mesurau i ostwng yr effeithiau negyddol	Effaith Weddilliol
Dynodiad yr Ysgol	Ar hyn o bryd mae'r ysgol wedi'i gategoreiddio fel ysgol arbennig a bydd yn parhau i fod yn ysgol arbennig os fydd y cynnig yn symud ymlaen.	NIWTRAL	Amherthnasol	Amherthnasol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

<p>Cysylltiadau'r ysgol i'r gymuned leol</p>	<p>Mae gan yr ysgol gysylltiadau da o fewn y gymuned mae'n ei gwasanaethu a bydd y cysylltiadau hyn yn cael eu cynnal.</p> <p>Mae gan yr ysgol ddyheadau i'r adeilad newydd gael ei ddefnyddio gan y gymuned ar ôl oriau ysgol.</p>	<p>CADARNHAOL</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Effaith ar ysgolion gerllaw</p>	<p>Gan fod hon yn ysgol arbennig sy'n gwasanaethu disgyblion gydag ASC, nid yw'r effaith ar ysgolion gerllaw yn ystyriaeth yn sgil natur arbenigol yr ysgol.</p> <p>Mae galw cynyddol am lefydd o fewn yr ysgol, gan arwain at yr Awdurdod Lleol</p>	<p>NIWTRAL</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Amherthnasol</p>

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

	yn gweithredu rhestr aros ar gyfer rhai grwpiau blwyddyn o fewn yr ysgol.			
Effaith ar ddisgyblion	<p>Bydd y cynnig cyfredol yn cael effaith cadarnhaol ar ddisgyblion drwy ddarpariaeth addysg well. Bydd gan ddisgyblion gyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif ac amgylchedd a fydd yn eu hysbrydoli a'u hysgogi yn eu dysgeidiaeth.</p> <p>Bydd cael disgyblion a staff ar un safle yn fanteisiol ac yn sicrhau fod trosglwyddiad rhwng cyfnodau allweddol yn gallu</p>	CADARNHAOL	Amherthnasol	Amherthnasol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

	cael eu hwyluso'n well.			
Effaith ar rieni a theuluoedd	<p>Ni ddylai fod effaith mawr ar rieni a theuluoedd yn sgil y cynnig.</p> <p>Bydd lleoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion yn cefnogi teuluoedd sydd angen lle arbenigol ar gyfer eu plentyn.</p>	CADARNHAOL	Amherthnasol	Amherthnasol
Goblygiadau teithio ar gyfer disgyblion/rhieni	<p>Bydd yr adeilad newydd yn parhau i fod yn Ninbych ac felly bydd yr amser teithio yn parhau i fod yr un fath. Mae'r lleoliad arfaethedig yn fwy canolog ac mae cysylltiadau gwell gyda chludiant cyhoeddus.</p>	CADARNHAOL	Amherthnasol	Amherthnasol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

<p>Effaith ar weithgareddau cymunedol</p>	<p>Ar hyn o bryd nid oes unrhyw weithgareddau cymunedol yn digwydd yn unrhyw un o'r safleoedd ysgol.</p> <p>Mae gan yr ysgol ddyhead i'r adeilad newydd fod yn hygyrch i'w ddefnyddio gan y gymuned tu allan i oriau ysgol.</p>	<p>CADARNHAOL</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Effaith ar gyfleusterau cymunedol</p>	<p>Y dyhead yw y bydd yr adeilad newydd yn hygyrch ar gyfer ei ddefnyddio gan y gymuned tu allan i oriau ysgol, bydd hyn yn rhoi mwy o opsiynau i gymuned Dinbych, a bydd angen i'r ysgol edrych ar unrhyw fylchau y gallent eu</p>	<p>CADARNHAOL</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Amherthnasol</p>

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

	llenwi o ran defnydd cymunedol.			
Effaith ar ddemograffig cymuned	Ni ddylai fod effaith ar ddemograffig cymuned yn sgil y cynnig. Mae'r cynnydd arfaethedig er mwyn lletya cynnydd yn nifer y disgyblion sydd angen lle mewn ysgol ASC.	NIWTRAL	Amherthnasol	Amherthnasol

Trosolwg - Effaith dechreuol posibl ar deuluoedd a'r gymuned leol

		Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
Effaith Gyffredinol	Cynnig Cyfredol	6	4	0
	Effaith Weddilliol	0	0	0

Crynodeb o'r Effaith Posibl ar deuluoedd a'r gymuned leol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Dylid nodi fod ceisio cadarnhau'r effaith posibl o sefydliad yr ysgol ar deuluoedd a'r gymuned leol yn dasg anodd.

Mae'r ysgol eisoes dros eu capasiti gyda rhestr aros ar gyfer rhai grwpiau blwyddyn. Mae'r galw am y mathau hyn o lefydd yn cynyddu o ystyried y nifer o ddysgwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu hasesu ac yn disgwyl am asesiadau. Mae'r pandemig wedi arwain at oedi mewn dysgwyr yn cael eu hasesu, mae'r niferoedd presennol yn dynodi y gall fod 25 o ddisgyblion ychwanegol a fydd angen lle yn yr ysgol. Mae effaith y pandemig ar blant eto i'w sylweddoli yn llawn, ond rhagwelir y bydd cynnydd mewn dysgwyr yn cael eu hatgyfeirio a'u hasesu.

Casgliad: Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni a'u teuluoedd. Mae'r cynnig wedi ystyried yr effaith ar y gymuned leol, ynghyd â'r galw am lefydd.

Gall y cynnig weld cyfleuster cymunedol newydd yn cael ei ychwanegu at yr opsiynau ar gyfer cymuned Dinbych.

Trwy gydol y cyfnod ymgynghori, os oes unrhyw effeithiau cyfiawn yn cael eu nodi, bydd yr asesiad ar effaith yn cael ei adolygu a bydd mesurau yn cael eu hystyried er mwyn lleihau'r effaith.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Atodiad A

Adeilad newydd - Ysgol Plas Brondyffryn:

Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effaith ar Les

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi effaith debygol y cynnig ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd.

Rhif Asesu: 860

Disgrifiad byr:

Effaith dod ag Ysgol Plas Brondyffryn at ei gilydd ar un safle mewn adeilad newydd pwrpasol yn Ninbych. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol wedi'i lleoli dros 3 safle yn y dref.

Dyddiad Cwblhau:

22/04/2022 11:03:24 Fersiwn: 2

Gwasanaeth â Chyfrifoldeb:

Gwasanaethau Plant ac Addysg

Ardaloedd yr effeithir arnynt gan y cynnig:

Dinbych.

Pwy fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig?

Disgyblion a staff yr ysgol

A gafodd yr asesiad o'r effaith ar les hwn ei gwblhau fel rhan o grŵp?

Na

Crynodeb a Chasgliadau

Cyn i ni edrych mewn manylder ar gyfraniad ac effaith y cynnig, mae'n bwysig ystyried sut mae'r cynnig yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Golyga hyn bod angen i ni

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

weithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."

Sgôr ar gyfer cynaliadwyedd y dull

3 allan o 4 seren

Gwir sgôr: 28 / 36.

Crynodeb ar gyfer pob egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Hirdymor

Bydd adeiladu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn yn cynyddu ei gapasiti o oddeutu 100 o leoedd a bydd yn rhoi cyfle i'r ysgol ddylunio'r ysgol yn y ffordd y maent eisiau ei wneud ac yn sicrhau hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol yn nhermau darparu'r cwricwlwm a niferoedd disgyblion. Bydd yn dod â'r holl staff a disgyblion i gyd at ei gilydd ar un safle mewn ysgol wedi'i hadeiladu'n bwrpasol sy'n addas ar gyfer dysgu yn y 21ain Ganrif. Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys darpariaeth breswyl Gerddi Glasfryn.

Atal

Mae angen cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol - ar hyn o bryd mae yna restr aros ar gyfer yr ysgol ac ym mis Medi nid oedd y disgyblion ym mlwyddyn 7 yn gallu symud i'r ysgol uwchradd oherwydd diffyg lle ac felly'n gorfod aros ar safle'r ysgol gynradd. Wrth i'r cynnig ddatblygu bydd effaith yr adeiladu ar yr amgylchedd ac ar ddefnydd ynni wrth symud ymlaen yn cael ei ystyried.

Integreiddio

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Mae angen i ni gynyddu'r capasiti yn yr ysgol yn sylweddol wrth i'r galw am leoedd i ddisgyblion o'r natur hwn gynyddu. Os na fyddwn yn gwneud hyn, bydd rhaid i ddisgyblion lleol deithio i ardaloedd Awdurdod Lleol eraill i gael mynediad at y lleoedd hyn neu aros mewn ysgolion anaddas nad ydynt yn gallu darparu ar gyfer eu hanghenion. Drwy adeiladu adeilad newydd sbon yn agos at yr ysgol bresennol - ni fydd y ddarpariaeth ar bob un o'r safleoedd presennol yn cael ei darfu arno.

Cydweithio

Rydym eisoes yn ymgysylltu â'r ysgol ar lefel rheoli - gyda staff uwch a'r llywodraethwyr.

Ymgysylltu

Fel y soniwyd uchod, rydym eisoes yn ymgysylltu â'r ysgol ac wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn ymgynghori â rhieni, gofalwyr a disgyblion o ran beth hoffent ei weld yn yr ysgol newydd. Wrth i'r prosiect ddatblygu bydd ymgynghoriad cyn cynllunio yn cael ei gynnal gyda phreswylwyr lleol.

Crynodeb o'r effaith

Effaith Cyffredinol ar Nodau Lies

Sir Ddinbych ffyniannus- Cadarnhaol

Sir Ddinbych wydn- Cadarnhaol

Sir Ddinbych iachach -Cadarnhaol

Sir Ddinbych sy'n fwy cyfartal- Cadarnhaol

Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol -Cadarnhaol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Niwtral

Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang Cadarnhaol

Prif gasgliadau

Mae'r prosiect i ddod ag Ysgol Plas Brondyffryn at ei gilydd ar un safle mewn adeilad newydd sbon yn cysylltu â blaenoriaeth Gorfforaethol Pobl Ifanc a bydd yn gwella dysgu disgyblion. Mae gan bob un o'r nodau lles effeithiau cadarnhaol ar wahân i un sy'n niwtral. Wrth i'r achos busnes ar gyfer y cynnig ddatblygu bydd gofyniad i gynnal proses asesu parhaus i sicrhau bod effeithiau posibl yn cael trin yn briodol - h.y. os oes angen i ni ymgymryd ag arolygon ystlumod er enghraifft.

Bydd y gwaith adeiladu ei hun yn helpu'r economi leol a bydd yn rhoi llawer o bwyslais ar fanteision cymunedol.

Unwaith fydd yr ysgol wedi'i chwblhau bydd gan y disgyblion a'r staff gyfleuster modern pwrpasol a fydd yn cyd-fynd â'u hanghenion ac yn caniatáu i fwy o ddisgyblion gael mynediad at y math hwn o ysgol yn yr ardal leol. Bydd y broses pontio ar gyfer disgyblion yn cael ei reoli mewn partneriaeth â'r ysgol a'r staff a bydd yn cael ei gynllunio mewn modd manwl yn ogystal â'r gwaith symud ar gyfer pob safle.

Yr effaith posibl ar Sir Ddinbych, Cymru a'r byd.

Sir Ddinbych ffyniannus

Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

Cyfiawnhad dros yr effaith

Bydd yr adeilad newydd yn dod â holl ddisgyblion yr ysgol at ei gilydd ar un safle gyda gwell cyfleusterau ac ardaloedd awyr agored. Bydd y prosiect hefyd yn cynyddu capasiti

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

presennol yr ysgol - ar hyn o bryd mae'r ysgol dros ei gapasiti ac mae'r galw am leoedd yn parhau i gynyddu.

Camau pellach angenrheidiol

Gweithio'n agos gyda'r contractwr sydd wedi'i benodi ar sut allwn ni leihau unrhyw allyriadau carbon yn ystod y cam adeiladu.

Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

Cymdeithas garbon isel

Lleihau ôl troed carbon yr ysgol gan y bydd 3 adeilad yn wag a bydd yr adeilad newydd yn defnyddio technolegau newydd.

Cyfathrebu, isadeiledd a chludiant safonol

Defnyddio cysylltiadau cludiant presennol. Bydd gan yr adeilad newydd isadeiledd TGCh newydd a fydd yn gwella'r ddarpariaeth TGCh yn yr ysgol.

Datblygu economaidd

Bydd gan y cam adeiladu o'r prosiect fanteision Cymunedol a bydd yn defnyddio llafur lleol, prentisiaethau ac ati.

Sgiliau safonol ar gyfer yr hir dymor

Gall cyfleusterau newydd yr ysgol ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau bywyd a gwaith ymarferol - er enghraifft, caffi gweithredol.

Swyddi safonol ar gyfer yr hir dymor

Bydd y ddarpariaeth newydd yn sicrhau ac yn cynyddu nifer y swyddi yn yr ysgol. Bydd gwell cyfleusterau hefyd yn cynyddu morâl y staff ac yn gwella'r gallu i gadw staff.

Gofal plant

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Bydd yr ysgol newydd yn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol arbennig hon i ddisgyblion â Chyflwr Sbectrwm Awtistig.

Effeithiau negyddol a nodwyd:

Cymdeithas garbon isel

Bydd adeiladu adeilad newydd yn creu allyriadau carbon.

Cyfathrebu, isadeiledd a chludiant safonol

Amherthnasol

Datblygu economaidd

Amherthnasol

Sgiliau safonol ar gyfer yr hir dymor

Amherthnasol

Swyddi safonol ar gyfer yr hir dymor

Amherthnasol

Gofal plant

Amherthnasol

Sir Ddinbych wydn

Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

Cyfiawnhad dros yr effaith

Bydd safle'r adeilad newydd ar faes chwarae presennol ac felly nid ydym yn rhagweld unrhyw amhariadau sylweddol ar yr ecosystem. Fel y disgrifiwyd uchod, bydd unrhyw faterion yn cael eu lliniaru yn y ffordd berthnasol.

Camau pellach angenrheidiol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Bydd cynllun rheoli gwastraff yn un o ofynion y broses caffael.

Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Bydd y prosiect yn sicrhau bo'r holl astudiaethau bioamrywiaeth perthnasol yn cael eu cynnal a bod unrhyw gamau lliniaru yn cael eu dilyn.

Bioamrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig

Os bo angen byddai ardaloedd cynefin newydd yn cael eu datblygu ar dir yr ysgol.

Lleihau gwastraff, aildddefnyddio ac ailgylchu

Bydd gan y contractwr sydd wedi'i benodi gynllun rheoli gwastraff ar waith.

Defnyddio llai o egni/danwydd

Bydd yr adeilad newydd wedi'i ddylunio i leihau costau ynni. Bydd ystyriaethau yn cael eu gwneud ar sut fydd deunyddiau yn cael eu cludo i'r safle, gan ddefnyddio cyflenwyr lleol lle bo'n bosibl er mwyn lleihau allyriadau.

Ymwybyddiaeth pobl o'r amgylchedd a bioamrywiaeth

Cwmpasu yn ystod y cam adeiladu i gynnwys y gymuned leol a'r ysgol.

Rheoli perygl llifogydd

Bydd y mater llifogydd yn cael ei archwilio yn ystod y camau dylunio a chynllunio.

Effeithiau negyddol a nodwyd:

Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Amherthnasol

Bioamrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig

Amherthnasol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Lleihau gwastraff, aildefnyddio ac ailgylchu

Amherthnasol

Defnyddio llai o egni/danwydd

Amherthnasol

Ymwybyddiaeth pobl o'r amgylchedd a bioamrywiaeth

Amherthnasol

Rheoli perygl llifogydd

Amherthnasol

Sir Ddinbych iachach

Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

Cyfiawnhad dros yr effaith

Bydd gwell cyfleusterau yn yr ysgol yn helpu lles emosiynol a meddyliol disgyblion a staff yn gyffredinol.

Bydd yr adeilad yn addas i'r diben ac yn ddigon hyblyg i addasu pan fo angen.

Camau pellach angenrheidiol

Sicrhau bo'r holl breswylwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf o ran y cynnydd a wnaed gyda'r gwaith adeiladu gan y contractwr.

Bydd gwaith gyda staff a disgyblion yn cael ei wneud yn y camau cynnar yn nhermau dod i arfer â'r adeilad newydd - bydd ymweliadau'n cael eu trefnu gyda'r contractwr a'r ysgol yn enwedig wrth i'r dyddiad symud i mewn nesáu.

Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Amgylchedd cymdeithasol a chorfforol sy'n annog ac yn cefnogi iechyd a lles

Bydd gwell cyfleusterau ac amgylchedd dysgu yn gwella morâl y staff, y disgyblion a'r gymuned.

Mynediad at fwyd iach o ansawdd da

Bydd gan yr ysgol ystafell fwyta bwrpasol i'r holl ddisgyblion.

Lles emosiynol a meddyliol pobl

Ardaloedd allanol gwell ar gyfer chwarae. Bydd yr holl ddisgyblion ar un safle - dim pontio pan fydd y disgyblion yn symud o'r adran ysgol gynradd i'r uwchradd a bydd unrhyw frodyr a chwiorydd yn yr ysgol i gyda ar yr un safle bob amser.

Mynediad at ofal iechyd

Amherthnasol

Cymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden

Mynediad gwell at ardaloedd awyr agored yn ogystal ag ardaloedd allanol gwell yn gyffredinol gyda mwy o le ac offer chwarae.

Effeithiau negyddol a nodwyd:

Amgylchedd cymdeithasol a chorfforol sy'n annog ac yn cefnogi iechyd a lles

Amherthnasol

Mynediad at fwyd iach o ansawdd da

Amherthnasol

Lles emosiynol a meddyliol pobl

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Bydd yn amharu ar breswylwyr sy'n byw'n agos at y safle yn ystod gwaith adeiladu'r adeilad newydd. Y newid yn yr amgylchedd i'r disgyblion pan fyddant yn symud i mewn i'r adeilad newydd.

Mynediad at ofal iechyd

Amherthnasol

Cymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden

Amherthnasol

Sir Ddinbych fwy cyfartal

Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

Cyfiawnhad dros yr effaith

Bydd y prosiect yn darparu cyfleusterau a fydd yn cefnogi addysgu gwell ac amgylchedd dysgu gwell.

Camau pellach angenrheidiol

Dim.

Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

Gwella lles pobl â nodweddion a ddiogelir. Y naw nodwedd a ddiogelir yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

Gwell mynediad at addysg i ddisgyblion â Chyflwr Sbectrwm Awtistig.

Pobl sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais:

Gwell mynediad at addysg i ddisgyblion â Chyflwr Sbectrwm Awtistig.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Pobl ag effeithiwyd arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal

Amherthnasol

Ardaloedd ag effeithiwyd arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol

Bydd gan ddisgyblion â Chyflwr Sbectrwm Awtistig gyfleusterau o'r radd flaenaf i ddatblygu sgiliau bywyd a gwaith.

Effeithiau negyddol a nodwyd:

Gwella lles pobl â nodweddion a ddiogelir. Y naw nodwedd a ddiogelir yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

Amherthnasol

Pobl sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais

Amherthnasol

Pobl ag effeithiwyd arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal

Amherthnasol

Ardaloedd ag effeithiwyd arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol

Amherthnasol

Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol

Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Cyfiawnhad dros yr effaith

Byddai'r cynnig yn dod â chymuned Ysgol Plas Brondyffryn at ei gilydd mewn cyfleuster pwrpasol newydd sbon. Mae'r ysgol eisoes yn cysylltu ag Ysgol Tir Morfa a bydd y cysylltiadau hyn yn cael eu cryfhau gan y bydd modd i'r disgyblion hyn gael mynediad at y cyfleusterau hefyd. Gellir cynnig cyfleusterau ar gyfer defnydd cymunedol hefyd, lle bo'n bosibl.

Camau pellach angenrheidiol

Rhoi gwybod i breswylwyr o ran pryd fydd unrhyw waith swllyd yn cael ei wneud.

Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

Cymunedau ac unigolion diogel

Bydd yr holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu ar un safle yn hytrach nag ar 3 safle gwahanol, sef sut mae'r ysgol yn gweithredu ar hyn o bryd.

Bydd diogelu yn cael ei ystyried yn ystod y cam dylunio i sicrhau bod ffiniau clir yn cael eu pennu rhwng y parthau cyhoeddus a phreifat o fewn yr adeilad newydd ei hun a'r safle cyffredinol.

Bydd yr adeilad newydd wedi'i ddylunio i sicrhau diogelwch y disgyblion a'r staff.

Cyfranogiad a gwytnwch cymunedol

Bydd digwyddiadau ymgynghori cyn cynllunio yn cael eu cynnal â'r gymuned fel y gallant edrych ar y cynlluniau a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.

Gall y cyfleusterau gynnwys caffi a chyfleoedd mwy galwedigaethol y gall disgyblion o Ysgol Tir Morfa, ein hysgol arbennig arall yn Sir Ddinbych, hefyd eu defnyddio, yn enwedig yn y ddarpariaeth ôl-16.

Atyniad yr ardal

Bydd dyluniad yr adeilad newydd yn ceisio gwella'r ardal.

Cysylltu Cymunedau

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Bydd yr adeilad newydd yn cynyddu capasiti'r ysgol a fydd yn sicrhau na fydd disgyblion yn Sir Ddinbych yn gorfod gadael y Sir i gael mynediad at y math hwn o ddarpariaeth.

Gwytnwch gwledig

Amherthnasol

Effeithiau negyddol a nodwyd:

Cymunedau ac unigolion diogel

Amherthnasol

Cyfranogiad a gwytnwch cymunedol

Amherthnasol

Atyniad yr ardal

Sŵn ac amhariad drwy'r broses adeiladu.

Cysylltu Cymunedau

Amherthnasol

Gwytnwch gwledig:

Amherthnasol

Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Effaith Gyffredinol

Niwtral

Cyfiawnhad dros yr effaith

Mae mwyafrif y plant sy'n mynychu yn dod o gartrefi sy'n siarad Saesneg ac mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith, fodd bynnag gall addysg gael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd y teulu yn gofyn am hynny. Bydd yn bwysig i'r contractwr sicrhau bo'r holl gyfathrebu i breswylwyr yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog.

Camau pellach angenrheidiol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Dim.

Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

Pobl yn defnyddio'r iaith Gymraeg

Mynnu bod y contractwyr yn defnyddio arwyddion a newyddlenni dwyieithog wrth gyfathrebu â'r cyhoedd.

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

Amherthnasol

Diwylliant a threftadaeth

Gall y cyfleuster newydd gael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â diwylliant Cymru.

Effeithiau negyddol a nodwyd:

Pobl yn defnyddio'r iaith Gymraeg

Amherthnasol

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

Amherthnasol

Diwylliant a threftadaeth

Amherthnasol

Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

Cyfiawnhad dros yr effaith

Yn gyffredinol, bydd yr effaith yn gadarnhaol drwy annog y defnydd o gadwyni cyflenwi lleol.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Camau pellach angenrheidiol

Wrth i'r cynnig ddatblygu ymhellach bydd effaith y gwaith ar allyriadau carbon yn fwy amlwg ac mae'n bosibl y bydd camau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r contractwr i ddylunio adeilad mor effeithlon â phosib o ynni o fewn y gyllideb.

Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

Cadwyni cyflenwi lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

Bydd yr opsiwn caffael ar gyfer y prosiect yn caniatáu mynediad at gontractwyr lleol.

Bydd manteision cymunedol yn cael eu gwerthuso ar y cam tendro ac yn cael eu monitro drwy gydol y prosiect.

Hawliau dynol

Sicrhau bod y contractwr yn 'Contractwr Ystyriol'.

Darpariaeth gwasanaeth ehangach yn yr ardal leol neu'r rhanbarth

Amherthnasol

Lleihau newid hinsawdd

Bydd yr adeilad wedi'i ddylunio fel ei fod mor effeithlon â phosib o ynni.

Effeithiau negyddol a nodwyd:

Cadwyni cyflenwi lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

Amherthnasol

Hawliau dynol

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Amherthnasol

Darpariaeth gwasanaeth ehangach yn yr ardal leol neu'r rhanbarth

Amherthnasol

Lleihau newid hinsawdd

Bydd adeiladu adeilad newydd yn creu allyriadau carbon.

Assesiad o'r Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg